

Gwasanaethau Anabledd

Nod

Gan gydnabod y rhwystrau ychwanegol sy'n wynebu myfyrwyr anabl, ein nod yw darparu gwasanaeth hygyrch a chynaliadwy i fyfyrwyr anabl sy'n sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn, lle bynnag y bo hynny'n bosib, yn y gymuned academiaidd a chymdeithasol, ac yn meithrin gwytnwch a hunanddibyniaeth. Rydym yn gweithio o fewn model cymdeithasol anabledd gyda'n partneriaid ar draws y sefydliad i hyrwyddo cydraddoldeb trwy wneud cynhwysiant yn ran annatod o arfer pob dydd.

Amcanion

- Cynnig cefnogaeth ac arweiniad personol ac academiaidd i ddarparu fyfyrwyr a myfyrwyr presennol, adnabod strategaethau unigol a chynhwysol i gael gwared ar rwystrau a hwyluso astudio a thasgau bob dydd;
- gweithio gyda myfyrwyr ar ddatblygu eu gwytnwch emosiynol a'u hunanddibyniaeth, ac i helpu myfyrwyr reoli effaith bod mewn prifysgol ar eu amhariad/cyflwr iechyd. Lle bo'n angenrheidiol, helpu myfyrwyr i fod yn realistig ynglŷn â'u lles a'u potensial academiaidd, gan gofio am ddyletswydd gofal y brifysgol;
- rhoi cyngor ac arweiniad i bartneriaid i ddiwallu anghenion myfyrwyr unigol ac i ddarparu cefnogaeth briodol gan ystyried y gwaith a'r ymdrech ychwanegol sydd eu hangen yn aml ar fyfyrwyr anabl i gyflawni eu nodau dysgu o ganlyniad i rwystrau;
- cysylltu â staff er mwyn addasu dulliau gweithredu i sicrhau y ceir dysgu hygyrch/darparu cyfleusterau hygyrch;
- trefnu a chynnal datblygiad a hyfforddiant staff i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd a darpariaeth gynhwysol;
- cynnal sgiliau proffesiynol staff i'w galluogi i ddiwallu'r gofynion o ran y gwasanaeth a'r ddarpariaeth;
- darparu gwasanaeth ymgynghorol i'r brifysgol ar faterion yn ymwneud ag anabledd, cyfrannu at waith pwyllgorau perthnasol yn y brifysgol a goleuo dogfennau polisi;
- datblygu ein darpariaeth mewn partneriaeth â myfyrwyr a staff trwy drafodaeth sy'n ein galluogi i addasu'n barhaus a gwella gan wneud yn fawr o'r adnoddau sydd ar gael.
- ymateb i newidiadau parhaus LMA, gan weithio mewn marchnad gystadleuol, cynnal a sicrhau ansawdd, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd.

[Carolyn Donaldson-Hughes](#)

Pennaeth Gweinyddiaeth Myfyrwyr